

# yr Athro



Daeth aelodau UCAC ynghyd ar 15-16 Ebrill yng Ngwesty Parc y Strade, Llanelli ar gyfer 75ed Cynhadledd Flynyddol UCAC. Y cwricwlwm newydd a llwyth gwaith oedd prif ganolbwynt y sesiynau ymylol – cewch ddarllen amdanynt yn y tudalennau sy'n dilyn.

Pasiwyd 35 o benderfyniadau – ar bynciau megis:

- newid cewynnau disgyblion
- condemnio unrhyw ysgol lle mae disgwyl i athrawon addysgu disgyblion yn ystod y gwyliau
- sicrhau bod addysg iechyd meddwl yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ABCh
- sicrhau rhaglen hyfforddi drwyadl a phrydlon ac adnoddau digonol i bob athro ac ysgol er mwyn



cwrdd â gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd

- sicrhau cysondeb lefelau rhwng ysgolion ledled Cymru yn y gofynion wrth gymedroli, a sicrhau bod y disgwyliadau'n realistig

Penderfyniadau'r Gynhadledd fydd yn gosod sail ar gyfer gwaith ymgyrchu'r undeb dros y flwyddyn i ddod, ac mae modd lawrlwytho copi o'r penderfyniadau ar wefan UCAC: [www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)

<p><b>O NERTH I NERTH</b></p> <p>Arian parod am gyflwyno aelodau newydd</p> <p><b>CYFLE I ENNILL £25!</b></p> 	<p>Ydych chi eisiau cyfle i ennill £25?</p> <p>Am bob darpar aelod y llwyddwch chi i'w recriwtio i fod yn aelodau o UCAC, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn £25 yr un!</p> <p>Am fanylion pellach, ewch i: <a href="http://www.ucac.cymru/recriwtio">www.ucac.cymru/recriwtio</a></p>
---	--

# Iaith yn fwy na Geiriau

Yr Athro Mererid Hopwood agorodd y Gynhadledd eleni gydag araith i ysbrydoli.

Roedd ei hafaiath, ei gweledigaeth a'i phositifrwydd yn gwbl heintus - a llwyddodd i osod y tŷn ar gyfer gweddill y Gynhadledd.

I roi syniad o ehangder ac amrywiaeth y cyflwyniad, cawsom gyfeiriadau at Yr Athro Graham Donaldson, JR Jones, Sanscrit, OM Edwards, Goethe, y Llyfrau Gleision, DJ Williams, Deddf Addysg 1870 - a Sam Warburton!

Trwy lu o enghreifftiau bywiog, dangosodd Mererid i ni sut mae'r gwahaniaethau yn y modd mae gwahanol ieithoedd yn mynegi syniadau yn arwain at fyd-olwg gwahanol. Ystyriwch y canlynol:

- **Ydyn ni'n estroniaid yn ein gwlad ein hun – neu'n gyd-drigolion?**  
Ystyr gwreiddiol 'Wales' yw 'foreign'  
Ystyr gwreiddiol 'Combrogos', a ddaeth wedyn yn 'Cymru', yw rhannu ardal ar y cyd
- **Sut ydyn ni'n mynegi perchnogaeth?**  
I have = pwyslais meddiannol  
Mae gyda fi = rhyw fath o gyd-deithio dros dro
- **Pwy sy'n deall 'reflective practice' orau?!**  
Study > Student  
Myfyrio > Myfyriwr

Ac yn sgil hynny, tynnwyd ein sylw at y ffordd y mae dwyieithrwydd yn arwain yn naturiol at greadigrwydd. A bod medru dwy iaith yn golygu iaith ychwanegol – nid un iaith ar draul y llall.

Yn yr un modd, cawsom ei dadansoddiad o'r gwahaniaeth cynnil – ond pwysig – rhwng yr enw Saesneg a'r enw Cymraeg ar adroddiad yr Athro Donaldson:

- **Successful Futures** yn pwysleisio dyfodol a llwybr pob unigolyn ar wahân
- **Dyfodol Llwyddiannus** yn awgrymu dyfodol fel cywaith â phersbectif cymunedol neu dorfol



Yn y bôn, dywedodd, mae iaith yn llawer fwy na geiriau. Mae'n torri cwys i'r meddwl o'n blaenau ni – ac mae'r cwys yn wahanol mewn gwahanol ieithoedd.

Fe wrthgyferbynnodd cwricwla'r gorffennol gyda'r cyfleoedd sydd o'n blaenau ni nawr. Atgoffwyd cynadledwyr UCAC o'r Seisnigeiddio mawr a ddigwyddodd yn sgil dyfarniad y Llyfrau Gleision bod y Cymry'n "ignorant, lazy and immoral" – a'r ffaith bod llawer o Gymry ar y pryd wedi derbyn y feirniadaeth ac wedi troi cefn ar yr iaith. Dyfynnodd DJ Williams a alwodd Deddf Addysg 1870 yn "beiriant mwrddro cenedl".

Felly, rhaid edrych yn bositif ar y cyfleoedd sydd ger ein bron yn sgil Adroddiad Donaldson. Mae angen i ni fwrw ati'n hyderus ac mewn modd uchelgeisiol, gan amlygu ein gwerthoedd fel Cymry. Os na wnawn ni, pwy wnaiff?

Mi ddylai'r cwricwlwm newydd fod yn gof cenedl ac yn crisialu'r gwerthoedd sy'n gynhenid yn ein hiaith. Rhaid brwydro yn erbyn y farn mai culni yw caru gwlad – does dim modd caru'r byd heb garu'ch gwlad yn gyntaf.

Mae'n mynd i fod yn waith – ond os yw rhywbeth yn werth ei neud, nid yw'r gwaith yn teimlo'n flinderus. Awn ati â phleser!

Rebecca Williams, Swyddog Polisi

## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Gareth Morgan

**Is-Llywydd:** Gwenno Wyn

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Elaine Edwards

**Cydllynydd Yr Athro:** Rebecca Williams

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

## Tâl aelodaeth 2016-17

Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2016:

Categori aelodaeth	Tâl blynyddol	Tâl misol
Llawn amser	£198	£16.50
Rhan amser 0.7-0.9	£165	£13.75
Rhan amser 0.4-0.6	£132	£11.00
Rhan amser 0.3 neu lai	£111	£9.25
Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu	<b>AM DDIM</b>	
Ail flwyddyn galendr o addysgu	<b>HANNER PRIS</b>	



Bydd Gwenno Wyn, sy'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun y Preseli yn dechrau ar ei chyfnod fel Llywydd Cenedlaethol UCAC ym mis Medi 2016. Dyma ddetholiad o'i haraith yn ystod y Gynhadledd:



**Oes oes yw wes wes, mynydd yw mini,  
Mae'n debyg yw odi clo, Bob cam yw pentigili.  
Merch yw rhoces, bachgen yw rhocyn  
Gwanlyd yw dishmol, gweddol yw oilun  
Lladd amser yw wilibowan, cusanu yw lapswchan.**

Roeddwn yn ffodus iawn o gael fy magu ar aelwyd ddiwylliedig ble wedd y 'pethe'n rhan annatod o fy magwraeth – roedd geirfa fel Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, UCAC, Yr Urdd a'r Blaidd yr un mor gyffredin ag oedd helo a shwmae.

Mab i ffarm oedd 'nhad, Ifan Geraint Jones Davies, yn Felingwm, Nantgaredig er nad oedd ganddo unrhyw ddileit ffermio (yn Bennaeth Adran y Gymraeg, yn Ysgol Uwchradd Abergwaun am dros ddeg mlynedd ar hugain) - yn feddyliwr craff ac ieithydd o'r radd flaenaf (graddiodd yn y Gymraeg a Lladin o Brifysgol Abertawe) – treuliodd gyfnod yn gweithio ar y Geiriadur Mawr. Do'dd dim siarad wast gyda nhad.

A mam – neu Eirlys Peris fel y galwai nifer hi, gan mai yn Llanberis y'i ganwyd. Roedd gan mam ddawn dweud a does ryfedd ei bod yn Gadeirydd hyn a'r llall ac yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr rhwng 1984-1986.

Dynes o flaen ei hamser. Bron 50 mlynedd yn ôl, pan anwyd Non, fy chwaer ifancaf, gyda Down Syndrome – newidiodd trywydd ei gyrfa. A hithe'n athrawes gynradd, fe benderfynodd fynd nôl i'r coleg i astudio Addysg Arbennig, a Non yn 18 mis. Gyda'i chymwysterau a'u hymroddiad, agorodd ddwy uned i blant Cymraeg eu hiaith ag anghenion arbennig yng ngogledd y sir cyn agor ysgol yn Eglwyswen, pentref bach rhwng Crymoch a Threfdraeth.

Symud ymlaen nawr at ddydd hynaws, diffuant a dirodres – neb llai na DJ Abergweun. Athro Saesneg oedd DJ ac ef oedd Ysgrifennydd cyntaf UCAC yn Sir Benfro. Cawsom y pleser o gwmni DJ ar yr

aelwyd wedi iddo golli Sian, ei wraig – aton ni y deuai bob dydd Nadolig. Cofiaf fy mod yn ymwybodol bod y gŵr hwn a feddai ar 'y wên na phyla amser' yn berson adnabyddus – ie, y 'cawr o Rydcymerau' oedd e!

Anghofia i fyth o'r alwad ffôn ar y pedwerydd o Ionawr 1970 i'n hysbysu ei fod wedi syrthio'n farw yn y Capel yn Rhydcymerau. Etifeddodd fy nhad hanner ei lyfrgell ac maent yn sefyll ar fy silffoedd llyfre i bellach. Wyddech chi, yn 15 oed, fod DJ wedi mynd i'r Rhondda o Rydcymerau i weithio yn y pwll glo ac yna i lofeydd yng Nghwm Aman - roedd yn focsiwr gwych ac yn arbennig am godi pwysau.

Dechreuais fy ngyrfa dysgu yn Ysgol Glantaf yng Nghaerdydd a bum yn ffodus i gael Janet Ogwen yn Bennaeth Adran arnaf. Gallaf ddweud mai hi a'm hysgogodd gyda'i brwdfrydedd tawel, heintus a'i doethineb.

Un arall, yn sicr sydd ar y rhestr yw Peter Griffiths – tad yr actor Ioan Gruffudd – fe oedd ail yn yr adran cyn iddo gael ei ddirchafu'n ddirprwy yno a finne'n gyw o athrawes yn cymryd ei le fel ail yn yr adran Gymraeg. Sôn am ddydd â thân yn ei fol, dyma fe! Dyma ddyddie da yng nghanol yr wythdegau pan oedd dysgu yn golygu dysgu a dyna oedd y flaenoriaeth.

**Doedd Data heb ei eni,  
Lefelau heb eu creu,  
Dim sôn am GWE nac Estyn  
A phawb yn joio glei.**

Gobeithio nawr, gydag Adroddiad Donaldson, y caiff plant Cymru, fel rhan o'u cwricwlwm y cyfle i ddyysgu am hanes cyfoethog eu gwlad a'i phobl – hoffwn ddyfynnu Ywain Myfyrr fan hyn: " Rwyf wedi fy argyhoeddi bod yma gyfle i sefydlu cyfundrefn addysg Gymreig wedi'i gwreiddio yn ein hanghenion a'n gwerthoedd fel cenedl.....llai o ddibyniaeth ar ddata, llai o brofion." Hip hip hwrê ddweda i!

## LLYFRAU LLAFAR A PHRINT



Cyfes o 12 llyfr stori hwyliog sy'n anelu i ddatblygu a hybu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant y Cymed Sylfaen. Mae'r llyfrau llwgar hyn hefyd ar gael fel e-lyfrau sain ar Aps Llyfrau Cymru (gwales.com), a gellir lawerhwytho ffeiliau sain oddi ar wefan Hwb (hwb.cymru.gov.uk). Mae'r llyfr oedolyn yn cynnwys amrywiol o senniadau am weithgareddau i'w gwneud yn yr ysgol ac yn y cartref (dwyieithog).

Llyfrau darllen: £3.50 yr un  
Pecyn o 6 llyfr: £20  
Llyfr oedolyn: £2  
E-lyfrau: £1.99 yr un

[www.aber.ac.uk/caa](http://www.aber.ac.uk/caa)



01970 622128

caa-archeb@aber.ac.uk

facebook.com/CAACymru

@caacymru

# Yr Her Ddigidol

Ym mis Medi gwelir cychwyn cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ysgolion Cymru. Fframwaith y bu llawer o ddyfalu am ei gynnwys, fframwaith a all ychwanegu yn sylweddol at lwyth gwaith athrawon ond fframwaith nas gwelwyd eto, a hynny gyda phrin bedwar mis cyn y bydd ysgolion yn dechrau'i weithredu.

Yng nghynhadledd flynyddol UCAC eleni ceisiodd **Dilwyn Owen** dynnu'r llenni ar gynnwys y fframwaith. Mae Dilwyn yn aelod o un o'r gweithgorau sy'n ymwneud â llunio'r fframwaith a chyflwynodd i ni sut y mae Ysgol Bro Morgannwg yn ymgodymu â'r her o gymhwysedd digidol.



Aeth **Serena Davies** â ni i gyfeiriad ychydig yn wahanol trwy ddangos mewn cyflwyniad hynod ddiddorol y modd mae Ysgol y Preseli yn ymgorffori agweddau o Dechnoleg Gwybodaeth i wersi trwy gyfrwng codau QR. Trwy ddefnyddio'r codau arbennig a'r ap **i-nigma** bydd y disgyblion, trwy gyfrwng eu dyfeisiadau digidol, yn cael eu hebrwng i safweoedd gwahanol ar gyfer blogio, gwybodaeth, cwisiau a gemau perthnasol, neu am gymorth.

Roedd y ddau gyflwyniad yn ddiddorol iawn ac yn rhoi syniad i ni sut mae dwy ysgol uwchradd yn ateb yr her ddigidol ac mae'n ymddangos y byddant yn barod i wynebu gweithredu'r Fframwaith Digidol ym mis Medi.

Un mater a gododd sgwrs yn dilyn y cyflwyniadau hyn, oedd y modd y mae'r ysgolion hyn yn gadael y plant ddefnyddio eu dyfeisiadau eu hunain mewn gwersi. Rhywbeth cymharol synhwyrol dybiwn i ond sydd hefyd â'i beryglon amlwg. Mae hyn yn atseinio'r neges a gafwyd mewn cyfarfod o'r Grŵp Strategol y Fframwaith Digidol yn ddiweddar, pryd nodwyd 'nad oes angen buddsoddiad ariannol mewn offer a chaledwedd' er mwyn cyflwyno'r Fframwaith. Efallai'n wir ond mae'r sinig ynof yn bryderus y gallai dibyniaeth ar ddyfeisiadau personol y disgyblion arwain at raniadau rhwng ysgolion yn ardaloedd dosbarth ganol ac ardaloedd difreintiedig ein gwlad.

Rhaid cyfaddef mod i'n edrych ymlaen yn eiddgar i weld cynnwys y Fframwaith newydd, ond mae ofn mawr gennyf na fydd digon o arian ar gael ar gyfer y gwaith hyfforddi anferthol sydd ei angen ac fel un sy'n ddigon hen i gofio ymgais drychinebus arall i hyfforddi'r gweithlu'n ddigidol does dim angen dweud mwy...NOF said!

Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol y Gogledd

# INTO FILM CYMRU



Bob blwyddyn bydd cwmnïau a sefydliadau amrywiol yn dod â'u stondinau i Gynhadledd UCAC er mwyn codi ymwybyddiaeth, cynnal sgwrsiau a chreu partneriaethau gyda'r cynadleddwyr sy'n bresennol.

Un elusen addysg oedd yn bresennol eleni oedd **Into Film Cymru** sy'n darparu cymorth creadigol ac arloesol i ysgolion Cymru:

*"Mae angen i blant a phobl ifanc ddysgu sut i wneud mwy na defnyddio technoleg yn unig a datblygu'r wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i ymwneud â'r dechnoleg honno mewn ffordd greadigol fel dysgwyr ac fel aelodau o weithlu technegol gymwys y dyfodol"*

- Yr Athro Donaldson, Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

Nod Into Film yw rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen ar athrawon er mwyn medru defnyddio ffilmiau yn hyderus i ysbrydoli, dal sylw ac ysgogi eu dysgwyr.

Elusen addysg yw Into Film sy'n rhoi lle canolog i ffilm ym mhrofiad dysgu a phrofiad diwylliannol plant a phobl ifanc. Mae ei rhaglen ledled y DU yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 5-19 mlwydd oed weld, meddwl, creu a dychmygu, gan gyfrannu at eu datblygiad addysgol, diwylliannol, creadigol a phersonol. Drwy gydweithio â'r sector addysg, ei nod yw gwella cyrhaeddiad a chefnogi addysg sy'n cydio, trwy ddarparu:

- hyfforddiant DPP yn seiliedig ar ffilm
- adnoddau addysgol i helpu athrawon i ddefnyddio ffilm yn yr ystafell ddosbarth
- digwyddiadau wedi'u harwain gan y diwydiant sy'n ysbrydoli, yn ehangu gorwelion ac yn datblygu dyheadau
- y gefnogaeth i gynnal clwb ffilm allgyrsiol rheolaidd

Mae Into Film Cymru eisoes yn cefnogi dros 600 o ysgolion yng Nghymru ac wedi darparu arlwy eang o wasanaethau i'r ysgolion hynny; o hyfforddiant am lythrennedd ffilm, i ddarparu dros 3000 o ffilmiau i glybiau ffilm, i ddigwyddiadau gyda sêr y byd ffilm.

Gellir dysgu mwy am waith Into Film a manteisio ar ei ddarpariaeth drwy fynd i'r wefan [www.intofilm.org](http://www.intofilm.org) neu drwy anfon e-bost at [cardiff@intofilm.org](mailto:cardiff@intofilm.org)



Derbyn cyngor CPR ar stondin British Heart Foundation Cymru



Standin Cyhoeddwr Adnoddau Addysg, Prifysgol Aberystwyth



# LLWYTH GWAITH: Ymgyrch UCAC yn parhau

Y drafodaeth gyntaf ar fore Sadwrn y Gynhadledd oedd sesiwn rhyngweithiol yn trafod llwyth gwaith. Mae UCAC yn sylweddoli fod athrawon dan bwysau cynyddol ac mai llwyth gwaith yw un o'r prif ffactorau.

Cyflwynwyd y sesiwn gan y Swyddogion Maes a chyflwynwyd tri chwestiwn i'r gynulleidfa i'w drafod fesul bwrdd ynglŷn â gwaith athro. Y bwriad oedd cynnal trafodaeth agored am waith ein haelodau ac i rannu eu profiadau hwy o lwyth gwaith.

Diddorol oedd clywed yr amrywiol sylwadau a'r safbwyntiau ynghyd â'r amrywiaeth barn rhwng ein haelodau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Y cwestiynau a osodwyd i'w hystyried oedd:

Beth yw'r gwaith sydd yn rhaid i mi wneud?  
Beth yw'r gwaith y gallwn ni wneud?  
Beth yw'r gwaith rwy'n dewis gwneud?

Agorwyd y drafodaeth gyda'r cwestiwn o'r hyn tybient fod yn rhaid i athrawon wneud yn eu gwaith o ddydd i ddydd a chafwyd atebion arbennig o dda a oedd yn amlinellu gofynion statudol swydd athro, er enghraifft, bod ar gael i weithio 195 diwrnod y flwyddyn; bod ar gael i weithio hyd at 1265 awr y flwyddyn; cynllunio, paratoi, asesu; adrodd am bryderon amddiffyn plant; disgyblu; safoni a chymedroli; adrodd i rieni a llawer i sylwad arall.

Un pwnc a gafodd gryn drafodaeth oedd y disgwyliad ar athrawon i gynnal a mynychu gweithgareddau allgyrsiol, gyda rhai yn derbyn taliad CAD ychwanegol am y cyfrifoldeb. Er fod y gwaith yma yn waith ychwanegol i waith arferol athro ac yn debygol o achosi mwy o lwyth gwaith, nodwyd fod y gweithgareddau hyn yn gallu rhoi boddhad mawr i athro yn ogystal â'r disgyblion.



Un pwynt a godwyd gan rai o'r athrawon cynradd oedd fod y llwyth gwaith o greu a gosod arddangosfeydd lliwgar a deniadol wedi cynyddu'n sylweddol gyda'r angen am eu newid yn gyson. Roedd hyn yn dra gwahanol i ymateb yr athrawon uwchradd lle nodwyd nad oedd cymaint o bwyslais ar arddangosfa dosbarth.

Un pryder sylweddol a godwyd yn ystod y drafodaeth oedd diffyg adnoddau a'r angen cyson i gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg. Mae UCAC yn codi'r pryder yma'n gyson gyda Llywodraeth Cymru, y consortia, yr awdurdodau lleol a CBAC gan ddatgan fod angen i ddogfennau ac adnoddau gael eu cyhoeddi yn gydamserol yn y ddwy iaith.

Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain


Beth allwch chi ac aelodau eraill UCAC wneud i gefnogi'r ymgyrch i leihau eich llwyth gwaith?

Mae UCAC yn ymwybodol bod llwyth gwaith yn eich llethu. Byddai ychydig o'ch amser chi a'ch cyd-aelodau yn helpu i ddangos bod y proffesiwn o ddifrif am leihau llwyth gwaith.

Gallwch:

- gyflwyno copi o adroddiad UCAC am Faterion Llwyth Gwaith i'ch pennaeth / tîm arwain i'w ystyried yng nghyd-destun eich ysgol/coleg
- gofyn i'r pennaeth drefnu trafodaeth am lwyth gwaith yn ystod cyfarfod staff, e.e. beth sy'n achosi'r llwyth gwaith mwyaf? A oes unrhyw bethau sy'n creu llwyth gwaith ond heb gael lawer o effaith ar safonau? Cysylltwch ag UCAC neu ewch i'r wefan am syniadau o beth i gynnwys yn eich trafodaeth am lwyth gwaith: mae'n bwysig trafod yn agored gan fod yn sensitif i lwyth gwaith eraill
- trefnu cyfarfod undeb unwaith y tymor i chi gael trafod materion o bwys, a phethau i ddwyn i sylw'r uwch dîm rheoli am lwyth gwaith diangen
- trefnu un digwyddiad, e.e. pawb i ysgrifennu cerdyn post at eich Aelod Cynulliad adeg cyfarfod undeb i nodi eich pryderon am lwyth gwaith mewn achos ysgol, gofyn am drafodaeth gyda'ch pennaeth os nad yw'r ysgol yn gweithredu gofynion statudol e.e. dilyn rheolau amser CPA neu Prin Gyflenwi gyda'r bwriad o ddatrys hyn
- sefydlu Pwyllgor Lles Staff i hwyluso trafodaethau am bethau sy'n creu straen
- dwyn enghreifftiau penodol o lwyth gwaith gormodol/cynyddol i sylw UCAC

**Ewch i wefan UCAC am gopi o adroddiad UCAC ar lwyth gwaith: [www.ucac.cymru/llwythgwaith](http://www.ucac.cymru/llwythgwaith)**



# Dyma ddeholiad o benderfyniadau a basiwyd yn y Gynhadledd eleni. I ddarllen yr holl benderfyniadau, ewch i wefan UCAC ([www.ucac.cymru/images/taflenni\\_gwybodaeth/PenderfyniadauGynhadledd2016.pdf](http://www.ucac.cymru/images/taflenni_gwybodaeth/PenderfyniadauGynhadledd2016.pdf))

Mae'r Gynhadledd hon:

- i) yn cydnabod gwaith arwrol yr undebau llafur sydd yn cynrychioli gweithwyr y diwydiant dur a'u hymdrechion i sicrhau dyfodol i'r diwydiant, y gweithwyr a'u cymunedau
  - ii) yn cydnabod camau pwysig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i ddenu prynwr addas a chyfrifol
- Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru a Llywodraeth San Steffan i gydweithio gyda'r undebau llafur ac i wneud popeth posib i sicrhau dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru a Lloegr.



Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau:

- i) lefelau staffio uwch
  - ii) lleihad yn nifer y disgyblion mewn dosbarth i uchafswm o 25
  - iii) hyfforddiant addas o safon uchel gyda phwyslais cynnar ar gymhwysedd digidol
- er mwyn galluogi'r proffesiwn i wireddu gweledigaeth Yr Athro Donaldson er lles plant a phobl ifanc Cymru.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Consortia, CBAC a Cymwysterau Cymru i ohirio cyflwyno cyrsiau ac adnoddau nes eu bod yn barod yn y ddwy iaith.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng iechyd meddwl cyfredol sy'n wynebu disgyblion yng Nghymru, drwy sicrhau bod addysg iechyd meddwl yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ABCh (Addysg Personol a Chymdeithasol), a bod hyfforddiant, adnoddau a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu i athrawon.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar bob corff llywodraethu adnabod un person o fewn y corff hwnnw i fod â chyfrifoldeb am les staff a sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith sydd yn ddisgwyliad statudol yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Mae'r Gynhadledd yn gofyn am fwy o gefnogaeth gan y Consortia rhanbarthol a llai o bwyslais ar herio.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i gynnwys adolygiad o Amser Cynllunio Paratoi ac Asesu yn y Cylch Gorchwyl nesaf ar gyfer y Corff Adolygu Athrawon Ysgol gyda'r bwriad o edrych ar ddulliau o gynyddu'r amser sydd ar gael i athrawon er mwyn cyflawni gwaith cynllunio, paratoi ac asesu yn ystod y diwrnod ysgol, i 20%, o leiaf.



Ydych chi'n defnyddio gwefan UCAC?

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)



# Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch i Arweinwyr Ysgol UCAC

Mae UCAC yn cynnal cyfres o gysiau hyfforddiant arbennig ar gyfer Arweinwyr Ysgol sy'n rhoi arweiniad ar faterion a chyfrifoldebau lechyd a Diogelwch mewn ysgolion.

Bydd y sesiynau hyfforddiant yn rai diwrnod llawn, dwys a chaiff eu darparu gan gwmni Thomas Carroll. Mae'r arbenigwr fydd yn cyflwyno'r cwrs yn brofiadol iawn yn y maes ac o ran darparu hyfforddiant. Mae'r cwrs arbennig hwn wedi'i deilwra'n benodol i ymdrin â'r heriau lechyd a Diogelwch sy'n wynebu ysgolion.

**Mae'r llefydd ar gyfer pob un o'r sesiynau yn gyfyngedig i 25, felly y cyntaf i'r felin fydd hi.**

I archebu eich lle (rhad ac am ddim) ar gyfer un o'r sesiynau hyfforddiant, bydd angen i chi gofrestru ar-lein (manylion isod) neu ffonio'r brif swyddfa ar 01970 639950:



Dyddiad: 28 Mehefin    Lleoliad: Yr Atom, Caerfyrddin  
**COFRESTRU:** [https://hyfforddiant\\_caerfyrddin.eventbrite.co.uk](https://hyfforddiant_caerfyrddin.eventbrite.co.uk)

Dyddiad: 6 Gorffennaf    Lleoliad: Glasdir, Llanrwst  
**COFRESTRU:** [https://hyfforddiant\\_llanrwst.eventbrite.co.uk](https://hyfforddiant_llanrwst.eventbrite.co.uk)

Dyddiad: 12 Gorffennaf    Lleoliad: Canolfan Soar, Merthyr Tudful  
**COFRESTRU:** [https://hyfforddiant\\_merthyrtudful.eventbrite.co.uk](https://hyfforddiant_merthyrtudful.eventbrite.co.uk)

## EIN UNDEB NI: Sut i gymryd rhan?

Mae gan UCAC 17 o Gymdeithasau Sir. Mae gan bob sir ei swyddogion sirol, ac fe gynrychiolir pob Cymdeithas Sir ar Gyngor Cenedlaethol UCAC. Trwy fynychu cyfarfodydd y Gymdeithas Sir gall aelodau UCAC ddod yn rhan o gyfundrefn ddemocrataidd UCAC a sicrhau bod yr Undeb yn parhau i leisio barn trwy yr aelodau.

### Ble a phryd?

Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	4.00pm, 8 Mehefin	Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe
Wrecsam	4.15pm, 9 Mehefin	Ysgol I.D. Hooson, Rhosllanerchrugog
Dinbych	4.00pm, 15 Mehefin	Canolfan Hwb, Dinbych
Rhondda Cynon Taf a Merthyr	6.00pm, 16 Mehefin	Bwyty Indiaidd Juboraj, Abercynon
Sir Gaerfyrddin	6.00pm, 16 Mehefin	Yr Atom, Caerfyrddin
Ceredigion	5.30pm, 21 Mehefin	Llanina, Llanarth
Mynwy, Torfaen a Chasnewydd	4.30pm, 23 Mehefin	Tafarn Nyth y Frân, Cwmbwrân
Gwynedd	4.30pm, 23 Mehefin	Gwesty'r Celt, Caernarfon
Powys	5.00pm, 23 Mehefin	Cann Offis, Llangadfan
Caerdydd	6.30pm, 28 Mehefin	Chapter, Caerdydd
Penfro	4.30pm, 30 Mehefin	Ysgol y Preseli, Crymymch

\*Dyddiadau gweddill cyfarfodydd y Cymdeithasau Sir i'w cadarnhau yn fuan - gwiriwch eich negeseuon e-bost!  
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Brif Swyddfa: 01970 639950 neu [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

# Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Mae'r wefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau. Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad diderfyn, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer. Dyma rai enghreifftiau o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



## CA5 – Cymraeg –

### Help Llaw gydag astudio Blasu

Canllaw astudio ac adolygu 'Blasu' gan Manon Steffan Ros. Datblygwyd gan Atebol a noddwyd gan Lywodraeth Cymru.



## Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Bwyd a Maeth TGAU
- Economeg TAG – Macro-economeg
- Astudiaethau Busnes UG – Swyddogaethau Busnes

## CA3 / 4 – Datblygu Metawybyddiaeth

Ceir yma gyflwyniad i fetawybyddiaeth ynghyd a chynlluniau gwerau, adnoddau a chlipiau ffilm. Mae'r clipiau ffilm yn dangos enghreifftiau o ymarfer da yn y dosbarth ar gyfer Celf, Cerdd, Daearyddiaeth, Drama, Ffrangeg, Gwyddoniaeth, Hanes, Mathemateg, Saesneg a Sbaeneg.



## Digwyddiadau

Eleni, cynhelir cynadleddau ar gyfer Ymarferwyr Cynradd Cymraeg Iaith Gyntaf ac Uwchradd Cymraeg Ail Iaith ar y dyddiadau canlynol:

- Ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf Cynradd – 17 Mehefin, 2016
- Ymarferwyr Cymraeg Ail Iaith Uwchradd – 1 Gorffennaf, 2016

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i [bit.do/cynadleddaucbac](http://bit.do/cynadleddaucbac).

## CA4 – Hanes -

### Datblygiad yr Almaen, 1919 -1991

Adnodd sy'n cynnig cyflwyniad i'r cysyniadau mwyaf pwysig ynglŷn â datblygiad yr Almaen rhwng 1919 a 1991.



## CA4 – Cerddoriaeth – Sgorau a rhannau

Mae'r sgorau hyn ar gyfer perfformiad yn y dosbarth. Maent yn cefnogi'r dysgu sy'n digwydd yn y tair uned TGAU ond yn arbennig yn Uned 1 Perfformio (ensemble) ac Uned 3 Arfarnu (gweithiau gosod).



Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau\\_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)

I gadw mewn cysylltiad ag UCAC, dilnywch ni ar:

@AthrawonCymru

/AthrawonCymru

**Llyfrau ac adnoddau addysg**

**Dylunio gwe a rhyngweithiol**

**Apiau a gemau addysgiadol rhyngweithiol**

**Hyfforddiant Iaith**

**peniarth.cymru 01267 676772**

**Gwasanaethu addysg yng Nghymru**